# POLISI UNIONDEB YMCHWIL

| Dyddiad | Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid | Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei gwblhau |
|---|---|---|
| 14 Ionawr 2022 | Cyhoeddiad Cyntaf | |
| 28 Gorffennaf 2023 | Diweddaru'r Swyddog Polisi a'r Uwch Swyddog Polisi | |

| Swyddog Polisi | Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol | Ysgrifennydd Brifysgol | Cadeirydd, Pwyllgor Llywodraethu a Moeseg Ymchwil | 24 Mai 2022 |

*Caiff y polisi hwn ei adolygu dri blwyddyn.*

## 1. Rhagarweiniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r polisi sy'n ymwneud â rheoli uniondeb ymchwil ym Mhrifysgol Bangor. Oherwydd bod y brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd cynnal y safonau uchaf o ran uniondeb ymchwil, mae'r brifysgol wedi llofnodi'r C*oncordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil*[1] ac yn cydymffurfio â'r ddogfen honno. Mae'r concordat hwn yn darparu fframwaith cenedlaethol cynhwysfawr i wneud ymchwil da ynghyd ag ymrwymiad i'r canlynol:

a) Cynnal y safonau uchaf o drylwyredd ac uniondeb ym mhob agwedd ar ymchwil.
b) Sicrhau bod ymchwil yn cael ei wneud yn unol â fframweithiau, rhwymedigaethau a safonau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol priodol.
c) Cefnogi amgylchedd ymchwil sy'n seiliedig ar ddiwylliant o uniondeb a llywodraethu da, arferion gorau a chefnogaeth i ddatblygu ymchwilwyr.
d) Defnyddio prosesau tryloyw, cadarn a theg i ymdrin â honiadau o gamymddwyn ymchwil pe baent yn codi.
e) Cydweithio i gryfhau uniondeb ymchwil ac i adolygu cynnydd yn rheolaidd ac mewn modd agored.

Mae'r polisi a'r concordat yn berthnasol i bob aelod staff a myfyriwr sy'n ymwneud ag ymchwil ar ran Prifysgol Bangor, yn cynnwys staff a myfyrwyr sy'n gwneud gwaith ymchwil o du allan i'r brifysgol, yn ogystal ag unrhyw rai nad ydynt wedi eu cyflogi gan y brifysgol ond sydd â chontractau er anrhydedd neu ganiatâd i wneud gwaith ymchwil ar brojectau dan nawdd y brifysgol (cyfeirir at y rhain i gyd fel ymchwilwyr). Mae'r polisi'n cynnwys yr holl ymchwil ym Mhrifysgol Bangor yn ogystal ag unrhyw waith a ledaenir. Mae lledaenu'n cynnwys cyhoeddi mewn cyfnodolyn neu lyfr, gwybodaeth ar y we, cyflwyniadau mewn cynadleddau neu unrhyw fath arall o gyfathrebu cyhoeddus. Nid yw'r Polisi Uniondeb Ymchwil yn berthnasol i waith a wneir yn rheolaidd fel rhan o fodiwl cwrs neu waith cwrs arall sy'n dod o dan y *Gweithdrefnau Uniondeb Academaidd*.[2]

Cynlluniwyd y Concordat i roi safonau a chanllawiau i ymchwilwyr ynglŷn â gwneud ymchwil moesegol o ansawdd uchel. Mae'r brifysgol wedi ymrwymo'n llwyr i gynnal y pwrpas hwn ac mae'r polisi hwn yn darparu fframwaith i ganiatáu i hyn ddigwydd ac i gefnogi staff yn eu gweithgareddau ymchwil a datblygu'r amgylchedd ymchwil mwyaf effeithiol posib. Mae'r polisïau penodol i fodloni'r pum ymrwymiad wedi eu nodi isod yn Adran 5.

---

[1] https://www.universitiesuk.ac.uk/sites/default/files/field/downloads/2021-08/Updated%20FINAL-the-concordat-to-support-research-integrity.pdf [2]
[2] https://www.bangor.ac.uk/regulations/procs/proc05.php.en

## 2. Cyfrifoldebau

### a) Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil)

Y Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil) sy’n gyfrifol am reolaeth gyffredinol ymchwil.

### b) Deoniaid Coleg / Penaethiaid Ysgol / Cyfarwyddwyr Sefydliadau Ymchwil

Mae deoniaid coleg, penaethiaid ysgol a chyfarwyddwyr sefydliadau ymchwil yn gyfrifol am drefniadau uniondeb ymchwil lleol, a byddant yn adolygu’r prosesau uniondeb mewn sefydliadau ymchwil ac yn yr ysgolion o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben. Rhaid iddynt hefyd sicrhau, yn unol â’r Polisi Moeseg Ymchwil, bod o leiaf un pwyllgor moeseg ymchwil academaidd wedi ei sefydlu, sy’n bodloni anghenion eu coleg, sefydliad a’r ysgolion cysylltiedig, gydag aelodaeth, cylch gorchwyl a phroses briodol o ran monitro ac adolygu materion sy’n ymwneud ag uniondeb ymchwil. Fel arall, rhaid cael cytundeb i weithredu ac adolygu materion sy'n ymwneud ag uniondeb ymchwil trwy bwyllgor moeseg ymchwil academaidd priodol arall.

### c) Ymchwilwyr

Mae gan bawb sy'n ymwneud ag ymchwil ddyletswydd i ystyried sut mae'r gwaith y maent yn ei wneud, yn ei gynnal neu'n ei gefnogi yn effeithio ar gymdeithas a'r gymuned ymchwil ehangach. Bydd gweithredu’r ymrwymiadau a nodir yn y polisi hwn yn dangos i’r cyhoedd, y llywodraeth, cyllidwyr, y trydydd sector, busnes a phartneriaid rhyngwladol y gallant barhau i ymddiried yn yr ymchwil a gynhyrchir ym Mhrifysgol Bangor a gwella enw da’r brifysgol am ymchwil moesegol o safon uchel. I'r perwyl hwn, mae gan ymchwilwyr ran i'w chwarae wrth fabwysiadu arfer gorau o ran uniondeb ymchwil, moeseg ac arfer da.

### d) Gwasanaethau Llywodraethu

Mae’r Gwasanaethau Llywodraethu yn gyfrifol am y *Polisi Uniondeb Ymchwil* ac am adolygu a diweddaru'r polisi o bryd i'w gilydd i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben, gan helpu i sicrhau bod y brifysgol yn hyrwyddo ac yn ymgorffori ymrwymiad i uniondeb ymchwil gyda phrosesau addas yn eu lle i ymdrin â chamymddwyn.

Yn unol â'r Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil, bydd y brifysgol yn cynhyrchu datganiad blynyddol byr ar uniondeb ymchwil a gymeradwyir gan Gyngor y Brifysgol ac a fydd ar gael i'r cyhoedd drwy wefan y brifysgol[3]. Bydd y datganiad blynyddol hwn yn cynnwys:

---

[3] https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/documents/research-integrity.pdf

i. Crynodeb o'r camau gweithredu a'r gweithgareddau a wnaed i gefnogi ac atgyfnerthu dealltwriaeth a chymhwyso materion uniondeb ymchwil (er enghraifft hyfforddiant i ôl-raddedigion ac ymchwilwyr, neu adolygiadau proses);
ii. Datganiad i roi sicrwydd bod y prosesau sydd wedi eu sefydlu gan y sefydliad i ymdrin â honiadau o gamymddwyn yn dryloyw, yn amserol, yn gadarn ac yn deg, a'u bod yn parhau i fod yn briodol i anghenion y sefydliad;
iii. Datganiad lefel uchel ar unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddwyn ymchwil a wnaed, a fydd yn cynnwys data ar nifer yr ymchwiliadau. Os na chynhaliwyd ymchwiliad ffurfiol, dylid nodi hynny hefyd;
iv. Datganiad ar yr hyn y mae'r sefydliad wedi ei ddysgu o unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddwyn ymchwil a wnaed, gan gynnwys pa wersi a ddysgwyd i atal yr un math o beth rhag digwydd eto;
v. Datganiad ar sut mae'r sefydliad yn creu ac yn ymgorffori amgylchedd ymchwil lle mae'r holl staff, ymchwilwyr a myfyrwyr yn teimlo'n gyffyrddus i roi gwybod am achosion o gamymddwyn.

## 3. Diffiniadau o Uniondeb Ymchwil[4]

Mae'r diffiniadau mewn perthynas ag uniondeb ymchwil a ddefnyddir yn y polisi hwn ac yn y concordat yn cynnwys:

A. **Uniondeb ymchwil:** er nad oes dosbarthiad cyffredinol o uniondeb ymchwil, y pum ymrwymiad a gynhwysir yn y *Concordat ar Uniondeb Ymchwil* sy'n ffurfio diffiniadau gwaith y brifysgol. Nodir dull y brifysgol o ymdrin â phob ymrwymiad isod.

i. **Gonestrwydd:** ym mhob agwedd ar ymchwil, gan gynnwys wrth gyflwyno amcanion, bwriadau a chanfyddiadau ymchwil; wrth adrodd ar ddulliau a gweithdrefnau ymchwil; wrth gasglu data; wrth ddefnyddio a chydnabod gwaith ymchwilwyr eraill; ac wrth gyfleu dehongliadau dilys a gwneud honiadau y gellir eu cyfiawnhau yn seiliedig ar ganfyddiadau ymchwil.
ii. **Trylwyredd:** yn unol ag arfer gorau disgyblaethol, defnyddio dulliau priodol; cadw at brotocolau y cytunwyd arnynt lle bo'n briodol; cymryd nodiadau a llunio dehongliadau a chasgliadau priodol o'r ymchwil; ac wrth gyfathrebu'r canlyniadau.
iii. **Tryloywder a chyfathrebu agored:** wrth ddatgan buddiannau cystadleuol posib; wrth adrodd yn llawn ar ddulliau ymchwil; wrth ddadansoddi a dehongli data; wrth sicrhau bod canfyddiadau ymchwil ar gael yn eang, sy'n cynnwys cyhoeddi neu rannu fel arall canlyniadau negyddol neu nwl i gydnabod eu gwerth fel rhan o'r broses ymchwil; ac wrth gyflwyno'r gwaith i ymchwilwyr eraill ac i'r cyhoedd.

[4] Daw'r diffiniadau o'r Concordat ar Uniondeb Ymchwil sydd ar gael yn: https://www.universitiesuk.ac.uk/sites/default/files/field/downloads/2021-08/Updated%20FINAL-the-concordat-to-support-research-integrity.pdf

iv. **Gofal a pharch:** i bawb sy'n cymryd rhan mewn ymchwil, ac i'r pynciau, defnyddwyr a buddiolwyr ymchwil, yn cynnwys pobl, anifeiliaid, yr amgylchedd a gwrthrychau diwylliannol.

v. **Atebolrwydd:** cyllidwyr, cyflogwyr ac ymchwilwyr ar y cyd i greu amgylchedd ymchwil lle mae unigolion a sefydliadau yn cael eu grymuso a'u galluogi i berchnogi'r broses ymchwil.

B. **Ymchwil:** diffinnir fel, 'proses ymchwilio sy'n arwain at ddealltwriaeth newydd, a rennir mewn modd effeithiol... Mae'n cynnwys gwaith sy'n uniongyrchol berthnasol i anghenion masnach, diwydiant, ac i'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol; ysgolheictod; dyfeisio a chynhyrchu syniadau, delweddau, perfformiadau, arteffactau gan gynnwys dylunio, lle mae'r rhain yn arwain at ddealltwriaeth newydd neu well o lawer; a defnyddio gwybodaeth gyfredol mewn datblygiad arbrofol i gynhyrchu deunyddiau, dyfeisiau, cynhyrchion a phrosesau newydd neu well o lawer, gan gynnwys dylunio ac adeiladu'.

C. **Ymchwilwyr:** diffinnir fel unigolion sy'n gwneud ymchwil (mae hyn yn cynnwys er enghraifft gweithwyr ymchwil, contractwyr annibynnol, ymgynghorwyr, myfyrwyr ymchwil, staff ar gontractau clinigol neu anrhydeddus ar y cyd, staff ymchwil sy'n ymweld o sefydliadau eraill).

D. **Cyflogwyr ymchwilwyr:** yw unrhyw gyrff neu sefydliadau sy'n gwneud neu'n cynnal ymchwil; yn cyflogi, cefnogi neu'n cynnal ymchwilwyr; addysgu myfyrwyr ymchwil; neu'n noddi a/neu'n cefnogi ymchwil.

E. **Cyllidwyr ymchwil:** gallant fod yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector neu'r sector preifat. Gall cyllidwyr hefyd fod yn gyflogwyr ymchwilwyr, a gallant hefyd gomisiynu ymchwil, a/neu ddarparu grantiau bloc neu gyllid neilltuedig. Mae'r diffiniad yn cynnwys sefydliadau sy'n darparu nawdd ariannol ar gyfer ymchwil a/neu ymchwilwyr.

F. **Sefydliadau eraill:** mae amrywiaeth o sefydliadau eraill yn ymwneud â chefnogi uniondeb ymchwil a gallant gynnwys cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio; academïau a chymdeithasau dysgedig; cyrff cynrychioliadol proffesiynol a phwnc-benodol; cyfnodolion a chyhoeddwyr; trydydd sector (e.e. elusennau fel *Cancer Research UK*); a sefydliadau sy'n cynnig cyngor, arweiniad a chymorth, megis yr *UK Research Integrity Organisation* (UKRIO).

Mae'r elfennau craidd hyn o uniondeb ymchwil yn berthnasol i bob agwedd ar ymchwil a wneir ym Mhrifysgol Bangor, gan gynnwys paratoi a chyflwyno cynigion grant a phroject, cyhoeddi a lledaenu canfyddiadau, a darparu adolygiad arbenigol ar gynigion neu

gyhoeddiadau eraill (hynny yw, adolygiad gan gymheiriaid). Mae gan ymchwilwyr ymreolaeth lwyr dros eu dewisiadau academaidd ond rhaid iddynt hefyd dderbyn cyfrifoldeb am y penderfyniadau a wnânt. Felly, yr unigolyn sy'n gyfrifol am weithredu'n unol ag egwyddorion uniondeb ymchwil ym mhob agwedd ar waith ymchwil, gan gynnwys adolygiad gan gymheiriaid.

## 4. Polisïau Cysylltiedig

Mae tudalen we'r brifysgol (Gwasanaethau Llywodraethu) yn rhestru fersiynau cyfredol polisïau sy'n berthnasol i uniondeb ymchwil. Caiff y rhain eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd fel rhan o adroddiad y brifysgol ar y Concordat. Nid yw'r Polisi Uniondeb Ymchwil yn berthnasol i waith a wneir yn rheolaidd fel rhan o fodiwl cwrs neu waith cwrs arall. Ymdrinnir â hyn yn y Weithdrefn Uniondeb Academaidd.

### a) Polisi Moeseg Ymchwil

Mae'n ofynnol gan y Concordat bod ymchwil yn cael ei wneud yn unol â fframweithiau, rhwymedigaethau a safonau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol priodol. Mae'r Polisi Moeseg Ymchwil yn nodi'r prosesau sy'n angenrheidiol i benderfynu a oes gofyn i ymchwilwyr gael cymeradwyaeth foesegol i'w hymchwil, ac os felly, sut y gwneir hyn. Mae Polisi Moeseg Ymchwil y brifysgol i'w weld ar we-dudalennau'r Gwasanaethau Llywodraethu[5].

### b) Datgelu er Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban)

Mae'r polisi hwn yn cynnig ffyrdd i aelodau o'r brifysgol godi pryderon difrifol, datgelu gwybodaeth o dan amgylchiadau y mae'r unigolyn yn credu sy'n dangos camymarfer (yn cynnwys torri gofynion uniondeb ymchwil), a derbyn adborth ar unrhyw gamau a gymerwyd heb ofni unrhyw adwaith andwyol. Gellir gweld polisi'r brifysgol ar ddatgelu er lles y cyhoedd (chwythu'r chwiban)[6] ar we-dudalennau'r brifysgol.

### c) Polisi ar Ddatganiadau Budd

Mae gwrthdaro buddiannau yn berthnasol i gamymddwyn ymchwil pan na chânt eu datgelu na'u rheoli'n briodol yn ystod project ymchwil neu yn ystod ymchwiliad i gamymddwyn ymchwil. Diffinnir gwrthdaro buddiannau fel gweithred neu sefyllfa, wirioneddol, bosib neu ganfyddedig a allai olygu bod unigolyn yn cael ei ddylanwadu gan ystyriaethau o fudd personol, neu fudd i deulu agos neu gydnabod agos. Gall y budd fod yn fudd ariannol neu'n

[5] https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/governance.php.en
[6] https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/governance.php.en

fathau eraill o fudd. Mae gan y brifysgol ac aelodau staff gyfrifoldebau ychwanegol mewn perthynas â gwneud ymchwil o ansawdd uchel. Mae polisi'r brifysgol ar ddatganiadau budd[7] i'w gweld ar we-dudalennau'r brifysgol.

## 5. Pum Ymrwymiad y Concordat ar Uniondeb Ymchwil

Mae polisïau Prifysgol Bangor i fodloni'r ymrwymiadau a amlinellir yn y Concordat ar Uniondeb Ymchwil fel a ganlyn:

a) **Ymrwymiad 1: Cynnal y safonau uchaf o drylwyredd ac uniondeb ym mhob agwedd ar ymchwil.**

i) Mae ymchwilwyr yn gyfrifol am ddeall y safonau disgwyliedig o drylwyredd ac uniondeb sy'n berthnasol i'w hymchwil yn ogystal â chynnal y safonau uchaf o drylwyredd ac uniondeb yn eu gwaith bob amser.

ii) Mae deoniaid coleg, penaethiaid ysgol a chyfarwyddwyr sefydliadau ymchwil yn gyfrifol am gynnal amgylchedd ymchwil sy'n datblygu arfer ymchwil da ac yn sefydlu diwylliant o uniondeb ymchwil yn ogystal â chefnogi ymchwilwyr i ddeall a gweithredu yn unol â safonau, gwerthoedd ac ymddygiad disgwyliedig. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn ymestyn i gefnogi ymchwilwyr i gyflawni disgwyliadau'r polisi uniondeb ymchwil hwn, yn enwedig dan amgylchiadau heriol a dangos bod ganddynt weithdrefnau ar waith i sicrhau bod ymchwil yn cael ei wneud yn unol â safonau arfer gorau. Mae hyn yn cynnwys systemau i hyrwyddo uniondeb ymchwil; a phrosesau tryloyw, cadarn a theg i ymchwilio i gamymddwyn ymchwil honedig.

iii) Pan gynhelir gwaith ymchwil ar y cyd, ac yn enwedig mewn partneriaethau rhyngddisgyblaethol neu ryngwladol, dylai ymchwilwyr sicrhau bod cytundeb clir ar y safonau a'r fframweithiau a fydd yn berthnasol i'r gwaith, a'u bod yn cael eu mynegi'n glir. Mae'r *Montreal Statement on Research Integrity in Cross-Boundary Research Collaborations* (2013)[8], a *The European Code of Conduct for Research Integrity* (2017)[9] yn darparu cyngor defnyddiol ynglŷn â'r gofyniad hwn.

b) **Ymrwymiad 2: Sicrhau bod ymchwil yn cael ei wneud yn unol â fframweithiau, rhwymedigaethau a safonau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol priodol.**

i) Rhaid i ymchwilwyr gydymffurfio â fframweithiau, rhwymedigaethau a safonau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol fel sy'n ofynnol gan awdurdodau statudol a rheoleiddio, a chan gyflogwyr, cyllidwyr a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Rhaid i

[7] https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/governance.php.en
[8] https://wcrif.org/montreal-statement/file
[9] https://allea.org/code-of-conduct/

ymchwilwyr sicrhau y caiff eu holl waith ymchwil ystyriaeth weithredol a phriodol o ran materion moesegol.

ii) Mae deoniaid coleg, penaethiaid ysgol a chyfarwyddwyr sefydliadau ymchwil yn gyfrifol am drefniadau adolygu moesegol lleol ac am sicrhau bod polisïau clir ar adolygu a chymeradwyaeth foesegol ar gael i bob ymchwilydd, yn unol â gofynion y Polisi Moeseg Ymchwil. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod pob aelod staff o fewn eu maes cyfrifoldeb yn ymwybodol o bolisïau a phrosesau sy'n ymwneud â chymeradwyaeth foesegol ac yn eu deall. Yn ogystal, mae Gwasanaethau Llywodraethu yn darparu systemau cefnogi  a chyngor i helpu ymchwilwyr i ddefnyddio arfer gorau wrth ymdrin â gofynion a safonau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol.

**c) Ymrwymiad 3: Cefnogi amgylchedd ymchwil sy’n seiliedig ar ddiwylliant o uniondeb a llywodraethu da, arferion gorau a chefnogaeth i ddatblygu ymchwilwyr.**

i) Rhaid i ymchwilwyr gymryd cyfrifoldeb am sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am y fframweithiau, safonau a rhwymedigaethau sy'n berthnasol i'w gwaith yn ogystal â chydweithio â'r brifysgol i gynnal amgylchedd ymchwil sy'n annog uniondeb ymchwil. Mae rhan o hyn yn ymwneud â chynllunio, gwneud ac adrodd ar ymchwil mewn ffyrdd sy'n ymgorffori uniondeb ac arfer moesegol ym mhob ysgol a choleg.

ii) Bydd y brifysgol yn darparu’r canlynol o dan delerau’r Concordat:

- Polisïau, arferion a gweithdrefnau clir i gefnogi ymchwilwyr;
- Hyfforddiant ar foeseg ymchwil ac uniondeb ymchwil. Cyfleoedd dysgu, hyfforddi a mentora addas i gefnogi datblygiad sgiliau ymchwilwyr trwy gydol eu gyrfaoedd;
- Systemau rheoli cadarn i sicrhau bod polisïau sy'n ymwneud ag ymchwil, uniondeb ymchwil ac ymddygiad ymchwilwyr yn cael eu gweithredu;
- Ymwybyddiaeth ymhlith ymchwilwyr o'r safonau a'r ymddygiad y disgwylir ganddynt;
- Systemau yn yr amgylchedd ymchwil sy'n nodi pryderon posib yn gynnar;
- Mecanweithiau i ddarparu cefnogaeth i ymchwilwyr sydd angen cymorth;
- Polisïau yn eu lle sy’n sicrhau nad oes stigma yn gysylltiedig ag ymchwilwyr sy’n canfod bod angen cymorth arnynt gan eu cyflogwyr;
- Prosesau clir i unrhyw aelod staff godi pryderon ynglŷn ag uniondeb ymchwil;
- Ymarfer monitro blynyddol i ddangos bod y brifysgol wedi cyflawni ei hymrwymiadau’n ymwneud ag uniondeb ymchwil o dan y Concordat;

- Uwch aelod staff enwebedig i oruchwylio uniondeb ymchwil a sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei diweddaru a'i bod ar gael i'r cyhoedd ar wefan y brifysgol. Yr unigolyn sy'n ymgymryd â'r dyletswyddau hyn yw'r Dirprwy Ysgrifennydd / Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu;
- Aelod staff a enwyd a fydd yn gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf i unrhyw un sydd eisiau rhagor o wybodaeth am faterion uniondeb ymchwil a sicrhau bod manylion cyswllt yr unigolyn hwnnw yn cael eu diweddaru a'u bod ar gael yn gyhoeddus ar wefan y brifysgol. Yr unigolyn sy'n cyflawni'r gwaith hwn yw'r Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil yn y Gwasanaethau Llywodraethu.

**d) Ymrwymiad 4: Defnyddio prosesau tryloyw, cadarn a theg i ymdrin â honiadau o gamymddwyn ymchwil pe baent yn codi.**

i) Mae ymreolaeth academaidd yn hanfodol i gynhyrchu ymchwil rhagorol ac ymchwilwyr unigol sy'n gyfrifol am sicrhau nad oes unrhyw gamymddwyn. Nodweddir camymddwyn ymchwil fel ymddygiad neu weithredoedd nad ydynt yn cyrraedd y safonau moeseg, ymchwil ac ysgolheictod sy'n ofynnol i sicrhau bod uniondeb ymchwil yn cael ei gynnal. Gall achosi niwed i bobl a'r amgylchedd, mae'n gwastraffu adnoddau, yn tanseilio enw da'r ymchwil ac yn niweidio hygrededd yr ymchwil. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad yw camgymeriadau gonest a gwahaniaethau mewn methodoleg neu ddehongliadau ymchwil er enghraifft, yn gyfystyr â chamymddwyn ymchwil.

ii) Gall camymddwyn ymchwil fod ar sawl ffurf, gan gynnwys:

- **Ffugio:** ffugio canlyniadau, allbynnau eraill (er enghraifft, arteffactau) neu agweddau ar ymchwil, gan gynnwys dogfennaeth a chydsyniad cyfranogwr, a'u cyflwyno a/neu eu cofnodi fel pe baent yn real.
- **Anwirio:** trin a/neu ddewis prosesau ymchwil, deunyddiau, offer, data, delweddau a/neu gydsyniad mewn modd amhriodol.
- **Llên-ladrad:** cyflwyno syniadau, eiddo deallusol neu waith pobl eraill (yn ysgrifenedig neu fel arall) fel eich rhai chi heb gydnabyddiaeth na chaniatâd.
- **Methu â bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol, moesegol a phroffesiynol**, er enghraifft:
    - peidio â chydymffurfio â gofynion cyfreithiol, moesegol a gofynion eraill i gyfranogwyr ymchwil, anifeiliaid, neu organau dynol neu feinwe a ddefnyddir mewn ymchwil, neu i ddiogelu'r amgylchedd
    - torri dyletswydd gofal gyda phobl sy’n ymwneud ag ymchwil, boed hynny’n fwriadol, yn fyrbwyll neu drwy esgeulustod difrifol, gan gynnwys methu â chael cydsyniad gwybodus priodol

    - camddefnyddio data personol, gan gynnwys datgelu pwy yw cyfranogwyr ymchwil a mathau eraill o dor-cyfrinachedd
    - ymddygiad amhriodol wrth adolygu cynigion ymchwil, canlyniadau neu lawysgrifau a gyflwynwyd i'w cyhoeddi. Mae hyn yn cynnwys peidio â datgelu achos o wrthdaro buddiannau; datgelu cymhwysedd sy'n amlwg yn gyfyngedig yn annigonol; camddefnyddio cynnwys y deunydd; a thorri cyfrinachedd neu gamddefnyddio deunydd a ddarperir yn gyfrinachol at ddibenion adolygiad gan gymheiriaid.
- **Camliwio:**
    - data, gan gynnwys atal canlyniadau/data perthnasol neu yn fwriadol, yn fyrbwyll neu drwy esgeulustod dybryd a chyflwyno dehongliad diffygiol o ddata
    - cyfranogiad, gan gynnwys honni bod yn awdur gwaith neu briodoli gwaith a pheidio â chydnabod y gwir awdur/personau sydd wedi gwneud cyfraniad priodol
    - buddiannau, gan gynnwys peidio â datgan buddiannau cystadleuol ymchwilwyr neu gyllidwyr astudiaeth
    - cymwysterau, profiad a/neu gymwysterau
    - hanes cyhoeddi, trwy ddyblygu cyhoeddi heb ddatgan hynny, gan gynnwys cyflwyno llawysgrifau dyblyg i'w cyhoeddi heb ddatgan hynny.
- **Ymdrin yn amhriodol â honiadau o gamymddwyn:** peidio ag ymdrin â throseddau posib, megis ymdrechion i guddio camymddwyn a dial yn erbyn rhywun sydd wedi chwythu'r chwiban neu beidio â chadw at weithdrefnau cytunedig wrth ymchwilio i gamymddwyn ymchwil honedig a dderbynnir fel amod cyllido. Mae ymdrin yn amhriodol â honiadau o gamymddwyn yn cynnwys sensora partïon yn amhriodol drwy ddefnyddio dulliau cyfreithiol, megis cytundebau peidio â datgelu.

iii) Bydd y brifysgol yn ymchwilio i honiadau o gamymddwyn ymchwil pan fyddant yn codi. Bydd unrhyw ymchwiliadau i gamymddwyn ymchwil honedig yn cynnwys y canlynol:

- Bod yn ymwybodol o fân droseddau, gan gynnwys camgymeriadau gonest, yn enwedig gan ymchwilwyr llai profiadol, neu mewn achosion heb fwriad amlwg i dwyllo. Yn aml gellir ymdrin â'r enghreifftiau hyn yn anffurfiol trwy fentora, hyfforddiant ac arweiniad i'r ymchwilydd.
- Cymryd camau rhesymol i sicrhau bod yr ymchwiliad yn annibynnol ac yn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau posib.
- Sicrhau bod yr ymchwiliad wedi ei ddogfennu'n iawn a'i fod yn digwydd dros gyfnod rhesymol o amser.

- Gweithredu heb unrhyw niwed i rywun sy’n chwythu’r chwiban, sydd wedi gwneud honiadau o gamymddwyn yn ddidwyll, neu er budd y cyhoedd, gan gynnwys cymryd camau rhesymol i ddiogelu eu henw da.
- Cymryd camau rhesymol i ddiogelu enw da unigolion sy’n cael eu rhyddhau o fai.
- Darparu gwybodaeth berthnasol am ymchwiliadau i gamymddwyn ymchwil i gyllidwyr ymchwil ac i gyrff proffesiynol a/neu statudol fel sy’n ofynnol gan amodau eu grant a rhwymedigaethau cyfreithiol, proffesiynol a statudol eraill.
- Cefnogi ymchwilwyr i ddarparu gwybodaeth briodol pan fo gofyn iddynt wneud adroddiadau i gyrff proffesiynol a/neu statudol.
- Darparu pwynt cyswllt a enwyd neu gydnabod trydydd parti priodol i weithredu fel cyswllt cyfrinachol i rywun sy’n chwythu’r chwiban neu unrhyw un arall sy’n dymuno codi pryderon ynglŷn ag uniondeb ymchwil sy’n cael ei wneud o dan eu nawdd. Yr unigolyn sy'n cyflawni'r gwaith hwn yw'r Prif Swyddog Gweithredu.

**e) Ymrwymiad 5: Cydweithio i gryfhau uniondeb ymchwil ac i adolygu cynnydd yn rheolaidd ac mewn modd agored.**

i) Mae'r brifysgol wedi ymrwymo i ddatblygiad parhaus diwylliant sy'n cefnogi ac yn meithrin uniondeb ymchwil, a phrosesau sy'n rhoi sicrwydd a, phan aiff rhywbeth o’i le, sicrhau bod ymchwiliad a chamau gweithredu priodol yn cael eu rhoi ar waith.

ii) Fel rhan o'i hymrwymiad i'r Concordat bydd y brifysgol yn cynhyrchu datganiad blynyddol byr, wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor, ac a fydd ar gael yn gyhoeddus wedi hynny ar wefan y brifysgol. Bydd y datganiad blynyddol hwn yn cynnwys:

- Crynodeb o'r camau gweithredu a'r gweithgareddau a wnaed i gefnogi ac atgyfnerthu dealltwriaeth a chymhwyso materion uniondeb ymchwil (er enghraifft hyfforddiant i ôl-raddedigion ac ymchwilwyr, neu adolygiadau proses).
- Yn y datganiadau blynyddol, pryderon llywodraethu y gellid eu defnyddio i wella trefniadau llywodraethu ymchwil Prifysgol Bangor.
- Sicrwydd bod y prosesau sydd yn eu lle i ymdrin â honiadau o gamymddwyn yn dryloyw, yn amserol, yn gadarn ac yn deg, a'u bod yn parhau i fod yn briodol i anghenion y brifysgol.
- Datganiad lefel uchel am unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddwyn ymchwil, a fydd yn cynnwys data ar nifer yr ymchwiliadau. Os na chynhaliwyd ymchwiliad ffurfiol, caiff hynny ei nodi hefyd;
- Yr hyn y mae'r sefydliad wedi ei ddysgu o unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddwyn ymchwil a gynhaliwyd, gan gynnwys pa wersi a ddysgwyd i atal yr un math o beth rhag digwydd eto;

- Hysbysiad ynglŷn â sut mae'r sefydliad yn creu ac yn ymgorffori amgylchedd ymchwil lle mae'r holl staff, ymchwilwyr a myfyrwyr yn teimlo'n gyffyrddus i roi gwybod am achosion o gamymddwyn.

Er mwyn gwella tryloywder, anfonir cyswllt i'r datganiad at ysgrifenyddiaeth llofnodwyr y concordat *Universities UK*.

**6. Proses Ymchwilio i Gamymddwyn Ymchwil**

a) Gellir dwyn pryderon am gamymddwyn ymchwil neu honiad o gamymddwyn ymchwil i sylw'r Uwch Swyddog Llywodraethu a Pholisi Ymchwil [10]. Yn y lle cyntaf, bydd y swyddog yn ystyried pryderon neu honiad yn unol â’i deilyngdod, ac os bydd y sefyllfa’n gofyn, bydd yn dechrau ymchwiliad cyn pen 5 diwrnod gwaith.

b) Bydd y wybodaeth a ddarperir i’r Uwch Swyddog Llywodraethu a Pholisi Ymchwil yn cynnwys:
- Enw’r ymchwilydd a’i gysylltiad â’r ymchwil dan sylw.
- Teitl y project a/neu rif grant yr ymchwil perthnasol (os yw'n hysbys).
- Disgrifiad o'r camymddwyn ymchwil honedig, a phryd a ble y digwyddodd.
- Unrhyw dystiolaeth/dogfennaeth ategol.
- Unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

c) Bydd rhaid i’r unigolyn hefyd ddarparu ei enw a’i fanylion cyswllt fel y gellir cysylltu ag ef/hi os oes angen rhagor o wybodaeth neu dystiolaeth. Caiff pob honiad a dderbynnir ei drin yn gwbl gyfrinachol ac yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

d) Caiff honiadau dienw eu hystyried yn ôl disgresiwn yr Uwch Swyddog Llywodraethu a Pholisi Ymchwil, gan gymryd cyngor gan Ddirprwy Ysgrifennydd / Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu neu’r Dirprwy Is-ganghellor Cysylltiol dros Lywodraethu Ymchwil lle bo angen, yn seiliedig ar ddifrifoldeb a hygrededd y pryder a godwyd, a’r tebygolrwydd o gael tystiolaeth i gadarnhau hynny.

e) Ymchwilir i bob honiad o gamymddwyn ymchwil mewn modd cyfrinachol. Mae hyn yn golygu na all pawb sy’n ymwneud ag ymchwiliad o dan y broses hon, gan gynnwys yr unigolyn sy’n gwneud y gwyn, yr ymchwilydd, ac unrhyw dystion, drafod, datgelu, casglu na gwneud unrhyw ddatganiadau am yr honiad i unrhyw drydydd parti ar unrhyw adeg, oni bai ei fod wedi ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y brifysgol neu oni bai bod rhaid gwneud hynny yn ôl y gyfraith.

f) Caiff enwau’r unigolyn sy’n cyflwyno’r gwyn, ymchwilwyr, a thystion eraill (ac unrhyw wybodaeth a allai ddatgelu pwy ydynt) eu golygu cyn i ddogfennau gael eu dosbarthu o dan unrhyw gam o’r broses ymchwilio i unrhyw un heblaw’r

[10] Manylion cysylltu: https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/ethicsandresearchethics.php.cy

swyddogion ymchwilio (gweler isod), ymchwilwyr penodedig neu aelodau perthnasol eraill o staff y brifysgol fel sy'n ofynnol yn achos y camymddwyn honedig (e.e. goruchwyliwr uniongyrchol, rheolwr y coleg). Cedwir yr holl wybodaeth bersonol sy'n rhan o'r broses ddisgyblu yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol â Deddf Diogelu Data 2018.

g) Mae'n bwysig nodi nad yw rheolau cyfrinachedd yn atal y brifysgol rhag datgelu gwybodaeth am ymchwiliadau a'u canlyniadau lle bo angen wrth gyflawni dyletswyddau, neu fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu unrhyw rwymedigaethau cytundebol sy'n ddyledus i drydydd partïon. Gall hyn gynnwys hysbysu'r cyrff cyllido (yn unol â'u polisïau a'u gweithdrefnau unigol), sefydliadau sy'n cydweithredu, neu unrhyw awdurdodau proffesiynol neu reoleiddiol eraill.

h) Os oes angen, bydd yr Uwch Swyddog Llywodraethu a Pholisi Ymchwil yn gofyn am ddogfennau pellach ac yn eu hasesu (e.e. ffeiliau, llyfrau nodiadau, copïau o negeseuon e-bost neu gofnodion eraill) a/neu wybodaeth gan yr unigolyn sy'n gwneud y gwyn, yr ymchwilydd, ei oruchwyliwr uniongyrchol, cyfarwyddwr y sefydliad ymchwil, neu unigolion perthnasol eraill.

i) Ar ddiwedd yr adolygiad rhagarweiniol, bydd yr Uwch Swyddog Llywodraethu a Pholisi Ymchwil yn paratoi adroddiad byr i bennaeth yr ysgol a goruchwyliwr uniongyrchol yr ymchwilydd ac yn gwneud argymhelliad:

- Nid oes unrhyw sylwedd i'r honiad ac nid oes achos i'w ateb.
- Ymddengys fod yr honiad yn ddisylwedd, yn faleisus, neu'n flinderus.
- Mae'r honiad yn deillio o anghydfod rhwng dau barti neu fwy y gellir yn rhesymol ei ddatrys trwy broses gymodi a chytundeb.
- Er y gall fod rhywfaint o sylwedd i'r honiad, nid oes bwriad neu dwyll amlwg, neu oherwydd ei natur gymharol fach, byddai'n fwy priodol ymdrin â'r drosedd drwy addysg, hyfforddiant, goruchwyliaeth, neu ddull arall nad yw'n cynnwys disgyblu.
- Mae'r honiad yn ddigon difrifol i haeddu asesiad mwy ffurfiol gan banel ymchwilio.

j) Os bernir bod angen panel ymchwilio ('y panel'), bydd yr Uwch Swyddog Llywodraethu a Pholisi Ymchwil yn hysbysu'r Dirprwy Ysgrifennydd / Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu a fydd yn symud y mater yn ei flaen neu'n penodi enwebai i wneud hynny.

## 7. Panel Ymchwilio i Gamymddwyn Ymchwil

a) Er mwyn sicrhau tryloywder, bydd gan y panel o leiaf un aelod allanol nad yw'n gysylltiedig â'r brifysgol.

b) Caiff y panel ei gadeirio gan ddirprwy is-ganghellor neu ddeon o goleg gwahanol.

c) Bydd gan y panel o leiaf un arbenigwr o'r maes ymchwil y mae'r camymddwyn honedig wedi digwydd ynddo, na fydd, yn ddelfrydol, yn aelod o'r ysgol neu uned academaidd sy'n destun yr ymchwiliad.

d) Swyddogaeth y panel fydd adolygu’r holl dystiolaeth berthnasol, a phenderfynu, yn ôl pwysau tebygolrwydd, a gyflawnwyd camymddwyn ymchwil (naill ai’n fwriadol neu’n anfwriadol), a natur a graddau posib y camymddwyn.

e) Gwahoddir yr ymchwilydd (ymchwilwyr) a’r unigolyn sy’n gwneud y gwyn/cwynion i ddod gerbron y panel ac mae ganddynt hawl i gynrychiolaeth gan ffrind, aelod o’r teulu neu gynrychiolydd undeb llafur a all siarad ar eu rhan.

f) Er mwyn cyflawni ei dasg bydd y panel yn:

- Adolygu’r honiad a’r holl dystiolaeth/dogfennau ategol a ddarparwyd gan yr unigolyn sy’n gwneud y gwyn am yr ymchwilydd (ymchwilwyr).
- Asesu unrhyw wybodaeth gefndirol sy'n berthnasol i'r honiad.
- Adolygu'r dogfennau/tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad rhagarweiniol.
- Gofyn am ddogfennau pellach ac yn eu hasesu (e.e. ffeiliau, llyfrau nodiadau, copïau o negeseuon e-bost neu gofnodion eraill) a/neu wybodaeth gan yr unigolyn sy'n gwneud y gwyn, yr ymchwilydd neu unigolion perthnasol eraill.
- Cyfweld â’r unigolyn sy’n gwneud y gwyn a’r ymchwilydd (ymchwilwyr), ac unrhyw dystion/unigolion eraill (gan gynnwys yr Uwch Swyddog Llywodraethu a Pholisi Ymchwil a gynhaliodd yr ymchwiliad rhagarweiniol) a all ddarparu gwybodaeth berthnasol.
- Pan fo’r achos yn ymwneud â materion cyfreithiol cymhleth, dylid ceisio cyngor priodol gan gyfreithiwr mewnol neu allanol, neu unigolyn arall â chymwysterau addas.
- Penderfynu a chymryd unrhyw gamau eraill fel y bo'n briodol.

g) O fewn 5 diwrnod gwaith, lle bo’n ymarferol bosib, cwblhau trafodion y panel, bydd y Dirprwy Ysgrifennydd / Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu neu ei enwebai yn hysbysu’r ymchwilydd, yn ysgrifenedig, am benderfyniad y bwrdd ac unrhyw gosb a roddir. Bydd y Dirprwy Ysgrifennydd / Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu ar yr un pryd yn hysbysu'r ymchwilydd am yr hawl i apelio fel y nodir yn Adran 8.

h) Ar ddiwedd yr ymchwiliad, bydd y panel yn llunio adroddiad yn amlinellu sut y cynhaliwyd yr ymchwiliad, a gafodd yr honiad ei gadarnhau, ei gasgliadau a'r rhesymau am benderfyniadau'r panel. Fel rhan o'i adroddiad, dylai'r panel hefyd wneud argymhellion ynglŷn ag unrhyw gamau angenrheidiol pellach y dylid eu cymryd i ymdrin ag unrhyw gamymddwyn y gall fod wedi ei ganfod. Gall hyn gynnwys er enghraifft:

- Tynnu'n ôl neu gywiro erthygl(au) cysylltiedig mewn cyfnodolyn (cyfnodolion) a adolygir gan gymheiriaid.
- Addysg, hyfforddiant neu oruchwyliaeth briodol.
- Cyfeirio’r mater i AD am gamau disgyblu posib.
- Adolygu'r gweithdrefnau rheoli, hyfforddi neu oruchwylio lleol i chwilio am wendidau a allai fod wedi arwain at y camymddwyn.

- Hysbysu unigolion priodol yn y brifysgol neu sefydliadau allanol. Gallai hyn gynnwys er enghraifft y corff cyllido perthnasol, sefydliad partner neu gorff rheoleiddio/proffesiynol.

## 8. Y Broses Apelio

a) Mae gan ymchwilydd hawl i apelio i banel apeliadau yn erbyn penderfyniad y panel ymchwilio.

b) Rhaid cyflwyno apêl yn erbyn y panel ymchwilio i'r Dirprwy Ysgrifennydd / Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu cyn pen 10 diwrnod gwaith, lle bo'n ymarferol bosib, ar ôl cael gwybod am benderfyniad y panel ymchwilio.

c) Bydd yr apêl yn datgan a yw'r apêl yn erbyn y penderfyniad neu'r gosb, neu'r ddau, a bydd yn rhoi'r sail dros yr apêl.

d) Ystyrir apeliadau am y rhesymau a ganlyn yn unig:

   i. Diffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd y panel, a lle gallai'r diffygion, yr afreoleidd-dra neu'r cyngor dan sylw fod wedi effeithio ar y penderfyniad.

   ii. Amgylchiadau eithriadol sy'n gysylltiedig â phenderfyniad y panel. Rhaid i'r apelydd egluro pam na chafodd y panel wybod am yr amgylchiadau personol hyn cyn y cyfarfod. Mewn achos lle byddai wedi bod yn bosib i ymchwilydd roi gwybod i'r panel am amgylchiadau eithriadol cyn y cyfarfod, ond na wnaeth hynny, ni all wedyn roi'r rhesymau hyn fel sail dros apelio.

e) Penodir y panel apêl gan y Dirprwy Ysgrifennydd / Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu. Ni chaiff unrhyw unigolyn ei benodi i'r panel ymchwilio ac i'r panel apêl, ill dau.

f) Caiff y panel apêl ei gadeirio gan ddirprwy is-ganghellor neu ddeon o goleg gwahanol.

g) Mae penderfyniad y panel apêl yn derfynol.